Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

Rhifyn 323 (Cymru) - 9 Mai 2022

Etholiadau mis Mai 2022: casglu data ac adborth wedi'r etholiadau

Yr wythnos diwethaf cynhaliwyd yr etholiadau llywodraeth leol ar draws Cymru gyfan.

Yr etholiadau pwysig hyn oedd yr etholiadau lleol cyntaf lle'r oedd pobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor sy'n preswylio'n gyfreithiol yng Nghymru yn gallu pleidleisio.

Ym mhedwar ardal awdurdod lleol Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili a Thorfaen, cynhaliwyd cynlluniau peilot pleidleisio hyblyg hefyd i brofi gwahanol fathau o bleidleisio ymlaen llaw.

Roedd yr etholiadau yn benllanw ymdrechion sylweddol ar draws y gymuned etholiadol. Mae gweinyddwyr etholiadol, staff gorsafoedd pleidleisio a llawer o rai eraill wedi gweithio'n galed i gefnogi cofrestru pleidleiswyr, galluogi pleidleisio drwy'r post a gorsafoedd pleidleisio, a chyfrif y pleidleisiau a fwriwyd.

Mae cyflwyno'r etholiadau hyn yn dyst i'ch ymrwymiad i'r broses ddemocrataidd.

Bydd y Comisiwn nawr yn dechrau proses o gasglu gwybodaeth a gwerthuso fel y gallwn adrodd yn ffurfiol yn yr hydref ar sut y cynhaliwyd yr etholiadau, ac ar brofiadau pleidleiswyr, ymgeiswyr, ymgyrchwyr a gweinyddwyr.

Fel rhan o'r broses hon, byddwn unwaith eto'n gofyn am eich cefnogaeth i ddarparu data ac adborth i ni er mwyn llywio ein hadroddiadau. Mae rhagor o wybodaeth am gyflwyno data i ni, gan gynnwys dolenni i arolygon a therfynau amser, wedi'i chynnwys isod. Diolch i bawb sydd eisoes wedi cwblhau'r arolygon sydd ar gael neu wedi dosbarthu dolenni arolwg.

Adborth gweinyddu etholiadol
Os hoffech roi eich adborth i ni, gallwch wneud hynny drwy gwblhau ein harolwg.

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Etholiadau mis Mai 2022: casglu data ac adborth wedi'r etholiadau

Gwybodaeth am sut i gyflwyno adborth a data yn dilyn etholiadau wythnos diwethaf.

Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol Bwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael fan hyn. Gallwch hefyd danysgrifio i'n Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)

Mae'r arolwg yn gofyn am eich barn ar agweddau ar weinyddu'r etholiadau, yn ogystal ag ar y canllawiau a'r gefnogaeth a ddarperir gan y Comisiwn. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 8 Mehefin. Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr arolwg hwn.

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddat-danysgrifio unrhyw bryd.

Arolwg ymgeiswyr
Mae'r arolwg hwn ar agor tan 8 Mehefin a byddem yn ddiolchgar pe gallai'r rhai nad ydynt eisoes e-bostio dolen i'r arolwg at yr ymgeiswyr hynny y mae gennych gyfeiriad e-bost ar eu cyfer.

I'ch helpu i rannu'r arolwg, rydym wedi paratoi'r testun canlynol y gallech ei ddefnyddio:

Annwyl Ymgeisydd,

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cynnal arolwg o ymgeiswyr a a ymgeisydd yn yr etholiad ym mis Mai 2022. Mae'r arolwg yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau am eich profiad o sefyll fel ymgeisydd, o'r enwebiad i'r cyfrif, a bydd y Comisiwn yn eu defnyddio i lywio eu hadroddiadau ar weinyddiaeth yr etholiadau.

*Dylai'r arolwg gymryd tua **15 munud** i'w gwblhau a bydd ar agor o ddydd **Gwener 6 Mai.** Gallwch lenwi'r holiadur ar-lein drwy'r ddolen hon: https://eu.surveymonkey.com/r/ECWCandidates*

*Y dyddiad cau ar gyfer derbyn yr adborth hwn fel y caiff ei ystyried fel rhan o adroddiad etholiadol y Comisiwn yw **8 Mehefin 2022**.*

Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol, ac ni fydd yn bosib adnabod unrhyw unigolyn yn y canlyniadau cyhoeddedig. Gallwch ddarllen hysbysiad preifatrwydd y Comisiwn Etholiadol yma.

Cysylltwch â ni gydag unrhyw ymholiadau am yr arolwg hwn.

Arolwg staff gorsaf bleidleisio
Bydd yr arolwg 10 munud ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio yn aros ar agor am o leiaf wythnos arall ac, os nad ydych wedi rhannu'r arolwg eisoes, byddem yn ddiolchgar pe gallech e-bostio dolen at staff gorsafoedd pleidleisio a weithiodd ar 5 Mai. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr arolwg hwn, cysylltwch â ni.

Data etholiadol
Byddwn yn anfon e-byst o 12 Mai yn eich gwahodd i gyflwyno data etholiadol ar gyfer yr etholiadau lleol trwy ein porth data ar-lein. Bydd yr e-bost yn dod o research@electoralcommission.org.uk i'ch cyfeiriad e-bost etholiadau awdurdod lleol generig (yn y mwyafrif o achosion); gall rhai unigolion hefyd dderbyn e-bost yn syth i'w cyfeiriad e-bost gwaith eu hunain. Mae'n debyg y bydd angen i chi ailosod eich cyfrinair cyn mewnbynnu data.

Os na fydd eich awdurdod yn derbyn e-bost, cysylltwch â ni.

Darllenwch y canllaw defnyddiwr cyn dechrau llenwi unrhyw ddata.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno data yw dydd Gwener 10 Mehefin.
Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach cysylltwch â ni.

.....

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.electoralcommission.org.uk

© Y Comisiwn Etholiadol 2022